# Wythnos 3 / Oed Meithrin
# Exodus a Rhyddid

## Cynllun y sesiwn

**Prif neges:** Pan mae Duw gyda ni, fyddwn ni byth yn gaeth.

### Adnoddau:

- Yn ddelfrydol, *Beibl Bach i Blant* neu unrhyw Feibl lliw arall.
- Siâp 'Cwmwl' allan o bapur
- Siâp 'Fflam' allan o bapur
- Ceffyl tegan
- Darn o ddefnydd lliw glas
- Neu os ar Zoom, paratowch eich PowerPoint gyda lluniau (cwmwl, fflam, ceffylau, defnydd lliw glas) o'r stori
- Pyped
- Dau beth trwm er mwyn cywasgu'r pyped (dim ond os ydych chi'n defnyddio Zoom)
- Label gyda 'Iesu' arno (dim ond os fyddwch yn chwarae'r gêm wyneb yn wyneb ac nid ar Zoom)

GWREIDDIAU AC YSTYR | EXODUS A RHYDDID | ALLTUDIAETH A HEDDWCH | MESEIA A CHARIAD | YSBRYD A CHYMUNED | GOBAITH A CHARTREF

# Y Stori:

Mae yna sawl ffordd i egluro neu wylio stori'r Exodus:

- Ar YouTube, chwiliwch am 'The Israelites Escape Egypt' a bydd llawer o fideos yn dod i fyny - mae cyfres fideos 'God Story' yn ardderchog

  Mae modd prynu ffilm o'r hanes yn Gymraeg hefyd (teitl: 'Y Môr Coch') o wefan www.ysgolsul.com

- Fel arall, lawr lwythwch yr ap 'Superbook'. Beibl i blant ar-lein yw hwn gyda llu o bethau ychwanegol fel gemau a gweithgareddau
- Darllenwch 'Y Môr Coch' o Beibl Bach i Blant a defnyddio propiau syml i ailadrodd y stori. Gallai propiau a syniadau i ddod â'r stori'n fyw gynnwys:
  - Cwmwl papur y gall y plant sefyll y tu nôl iddo mewn llinell, a'i ddilyn wrth iddo symud
  - Fflam dân allan o bapur
  - Gall rhai o'r arweinwyr esgus bod yn Eifftiaid ar gerbydau, a mynd ar ôl y plant
- Defnyddiwch dau ddarn o ddefnydd lliw glas sy'n gwahanu wrth i 'Moses' godi ei ffon, a chael y plant i gerdded trwyddo

**Addasu ar gyfer Zoom**

*Os ar Zoom, paratowch PowerPoint gan ddefnyddio delweddau perthnasol, a darllenwch y stori*

*NEU defnyddiwch bropiau wrth ichi ddarllen y stori i'r sgrin*

**Cymhwyso:**

- Defnyddiwch byped meddal, ciwt i adrodd y stori isod. Mae'r sgript hwn yn addas ar gyfer twrch daear bach du gydag acen Gymraeg, ond gall unrhyw byped neu acen weithio. Diwygiwch y sgript fel bod y pyped yn gorffen i fyny wedi ei gaethiwo yn y mwd
- Mae'r camau i blant eu dilyn mewn cromfachau

---

**Oedolyn:** Hei bawb. A gaf i eich cyflwyno i'm ffrind, sef Twrch? Mae'n feddal iawn ac yn gyfeillgar iawn. Twrch daear ydi o.

**Twrch:** Helo bawb *(gadewch i'r plant ei gyffwrdd, neu ewch a'r pyped o gwmpas gan adael i'r plant roi eu llaw arno)*

**Oedolyn:** Twrch, neithiwr roeddwn yn y gwely ac roeddwn i'n teimlo'n hollol gaeth ac yn methu symud - fel hyn! *(Dangoswch eich hun yn rhewi yn y fan a'r lle. Gadewch i'r plant symud a rhewi pan ddywedwch eich bod yn gaeth ychydig o weithiau).* Roeddwn i eisiau chwarae gyda fy nheganau 'Paw Patrol' ond dywedodd Mam fod yn rhaid i mi gysgu. Roeddwn i'n teimlo'n gaeth iawn a doedd e ddim yn deimlad braf!

**Twrch:** Wel, twrch daear ydw i, ac rydw i bob amser o dan y ddaear mewn mwd! Rwy'n mynd yn sownd o hyd ac yn teimlo'n gaeth *(beth am gael y plant i symud a rhewi ar eich gorchymyn unwaith eto)*

**Oedolyn:** YCH a fi! Rwyt ti'n byw mewn mwd?!

**Twrch:** O ydw!

**Oedolyn:** A wnest ti erioed fynd yn sownd mewn gwirionedd?

**Twrch:** O do. Un diwrnod, sticiais fy mhen allan o'r ddaear ond ces fy hun yn gaeth rhwng dwy garreg (gofynnwch i ddau berson arall gamu i mewn yn agos atoch o naill ochr i chi. **Addasu ar gyfer Zoom:** stwffiwch eich pyped rhwng dau wrthrych trwm sy gyda chi yn y tŷ). Roeddwn i'n gwbl gaeth. Ni allwn fynd i fyny *(gadewch i'r plant sefyll)* ac ni allwn fynd i lawr *(plygu)*.

**Oedolyn:** Sut wnest ti gael dy hun yn rhydd yn y diwedd?

# Y Stori: *(parhad)*

**Twrch:** Wel, cofiais fod fy ffrind gorau, sef Iesu, gyda mi bob amser. Yna cofiais fy mod i byth yn gaeth gyda Iesu.

**Oedolyn:** Felly, beth wnest ti?

**Twrch:** Fe ddywedais 'Iesu a fedri di fy helpu? Dydw i byth yn gaeth gyda thi.' Y peth nesaf a ddigwyddodd oedd fe wnaeth na fochyn daear ddod heibio a tharo un o'r creigiau â'i gorff, ac fe gwympodd y graig allan o'r ffordd! *(Mae'r arweinydd i'r chwith ohonoch chi'n cwympo.* ***Addasu ar gyfer Zoom:*** *taflu'r gwrthrych i'r chwith).* Doeddwn i ddim yn gaeth ddim mwy.

**Oedolyn:** Waw! Dwyt ti byth yn gaeth gyda Iesu.

**Twrch:** Byth!

**Oedolyn:** Diolch, Twrch - wnâi ddim yn anghofio hynny. Beth am i ni gyd ffarwelio gyda Twrch? *(annog y plant i ddweud 'hwyl fawr Twrch')*

# Gêm

Ceisiwch annog y plant i redeg i ffwrdd oddi wrthych chi. Ar ôl cael eu tagio gan arweinydd, rhaid iddyn nhw rewi fel petaen nhw'n gaeth. Mae arweinydd arall yn gwisgo arwydd sy'n dweud 'Iesu' - pan maen nhw'n cyffwrdd â'r plentyn, mae'r plentyn yn dod yn rhydd ac yn gallu rhedeg eto.

Addasu ar gyfer Zoom – *Os ydych chi'n chwarae hwn trwy Zoom, beth am wneud fel a ganlyn:*

- bydd angen enwebu plentyn neu arweinydd sy'n 'darged' i gychwyn
- Gall plant eraill symud o gwmpas yn gyflym iawn yn eu gofod ar y sgrin
- Mae'r plentyn 'target' yn gwylio ac yn galw enw ac yn ei ddilyn gyda'r gorchymyn 'RHEWA' (e.e. 'Sioned, rhewa')
- Yna rhaid i Sioned rewi a stopio symud ar y sgrin
- Yna gall yr arweinydd sy'n hwyluso'r sesiwn ddweud 'Sioned, mae Iesu'n dy ddadrewi'

# Gweddi

Gofynnwch i'r plant wneud naid uchel siâp seren. Anogwch nhw i daflu eu breichiau a'u coesau mor llydan ag y gallan nhw. Wrth iddyn nhw wneud eu seren naid, dywedwch wrth Dduw bob tro…

*'Diolch Iesu am ein gollwng ni yn rhydd. 'Amen'*

**Gweddi i weddïo gyda'n gilydd ar ddiwedd y sesiwn**

*Annwyl Iesu, diolchwn i ti na fyddwn ni byth yn gaeth tra yn dy gwmni di. Diolch, hyd yn oed os ydym yn ofnus neu'n drist, y galli di wneud pethau anhygoel i sicrhau ein bod yn rhydd. Diolch i ti hyd yn oed am rannu'r môr yn ddau er mwyn achub dy bobl. Rwyt ti'n Dduw anhygoel. Amen.*

